Y Comisiwn Etholiadol | The Electoral Commission

David Rees AS
Dirprwy Lywydd
Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

08 Mehefin 2023

Annwyl Gadeirydd,

**Adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion**

Diolch am y gwahoddiad i roi sylwadau ar ddatganiad o egwyddorion arfaethedig y Pwyllgor Cyllid ar gyfer craffu ariannol. Rydym wedi casglu safbwyntiau o fewn y Comisiwn Etholiadol a gobeithiwn y bydd yr adborth a ddarperir o ddefnydd wrth lywio ymateb Pwyllgor y Llywydd.

Mae'r Comisiwn yn cefnogi'r eglurder a ddarparwyd drwy gael datganiad o egwyddorion ar gyfer y Pwyllgor Cyllid. Yn amlwg, mae'r datganiad hwn yn seiliedig ar gredoau a bwriadau, ac mae'r datganiadau wedi'u deall a'u cefnogi i raddau helaeth. Fodd bynnag, croesawir eglurhad pellach ar ddefnydd yr egwyddorion.

Nodir isod ein barn ar egwyddorion 3 i 7.

**Egwyddor 3. Dylid gosod ceisiadau cyllideb yng nghyd-destun y sefyllfa cyllido ariannol hirdymor yng Nghymru a'r pwysau cyllido yn y sector cyhoeddus ehangach.**

- Awgrymwn fod cyd-destun y pwysau yn cael ei egluro cyn i'r cynigion gael eu cwblhau er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau arfaethedig yn alinio â disgwyliadau ar fforddiadwyedd ac yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Senedd.

**Egwyddor 4. Dylai ceisiadau ddangos sut y bydd amcanion blynyddol ac amlflwydd yn cael eu blaenoriaethu, eu monitro a'u cyflawni.**

Y Comisiwn Etholiadol
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Caerdydd CF14 3UZ

The Electoral Commission
Companies House
Crown Way
Cardiff CF14 3UZ

Ffôn/Phone: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
infowales@electoralcommission.org.uk
comisiwnetholiadol.org.uk
electoralcommission.org.uk

- Cytunwn fod angen gwerthfawrogi cyd-destun ar setliadau un flwyddyn, gan gysylltu â blaenoriaethau tymor canolig a thymor hwy a chael hyder bod cynnydd ar y trywydd iawn.

**Egwyddor 5. Ni ddylai cyrff a ariennir yn uniongyrchol gymryd cynnydd mewn cyllid yn ganiataol, ni waeth y newid mewn bloc grant, gan fydd unrhyw gynnydd i'w cyllid yn gostwng yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus datganoledig eraill.**

- Cytunwn y dylai mesurau osgoi costau yn cynyddu. Fodd bynnag, bydd angen rhoi ystyriaeth i'r hyn a ystyrir yn bwysau chwyddiannol anosgoadwy, yn enwedig dyfarniadau cyflog a gytunwyd a chynnydd cytundebol anosgoadwy. Yn ogystal, gall gostyngiadau mewn termau real gael effeithiau ar allbynnau a chanlyniadau ac felly awgrymwn fod angen i'r rhain gael eu nodi'n glir.

**Egwyddor 6. Dylai cyrff a ariennir yn uniongyrchol geisio gwella prosesau a chynyddu effeithlonrwydd yn barhaus.**

- Cytunwn y dylai effeithlonrwydd barhau i ffurfio elfen allweddol o gais cytbwys.

- *Pwynt eglurder: A yw'r egwyddor hwn yn awgrymu y dylid nodi effeithlonrwydd yn glir ac fel rhan o brosesau'r cais?  A fydd hyn hefyd yn ystyried diwedd gwasanaethau penodol nad ydynt yn cael eu canfod i fod yn werth da a/neu yn amhosibl ei fforddio?*

**Egwyddor 7. Lle gofynnir am unrhyw gynnydd mewn cyllid, dylai'r rhain gael eu hategu gan dystiolaeth o'r angen, y buddiant a'r ceisiadau a wnaed i ostwng costau o'r fath. Hefyd, dylid meintoli a gwneud yn glir y canlyniadau o beidio â chael y cynnydd mewn adnoddau.**

- Cytunwn y dylid cyfiawnhau twf gwariant ar fuddiannau disgwyliedig ac allbynnau a chanlyniadau canfyddedig. Fodd bynnag, awgrymwn y dylid hefyd rhoi ystyriaeth i elfennau eraill cyflawni canlyniadau, gan gynnwys canfyddiadau'r cyhoedd, capasiti sefydliadol a defnydd effeithiol o adnoddau, i sicrhau bod achos cytbwys o werth am arian yn cael ei ystyried.

- A ellid rhoi ystyriaeth i amlygu risgiau allweddol a/neu sylweddol o fewn y cynigion?

Diolch yn fawr i chi eto am y cyfle i roi sylwadau, gobeithiaf fod ein hymateb yn ddefnyddiol.

Yr eiddoch yn gywir,



**Shaun McNally CBE**
**Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu**